

SESIWN DAEARYDDIAETH 6: BWLCH Y DU

Ystod oedran: 11-16 oed

<p>Amlinelliad Bydd y dysgwyr yn cael eu cyflwyno i'r gwahaniaeth rhwng tlodi absoliwt a thlodi cymharol, ac yna'n ymchwilio i'r hyn y mae'n ei olygu i fyw mewn tlodi (cymharol) yn y DU. Byddant hefyd yn defnyddio fideo a wnaed gan bobl ifanc yn yr Alban i nodi effeithiau posibl tlodi ar bobl ifanc yn y DU. Wedyn, bydd y dysgwyr yn defnyddio olwyn ganlyniadau i feddwl yn feirniadol am yr effeithiau hyn y mae tlodi yn eu cael.</p>		
<p>Amcanion dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwahaniaethu rhwng tlodi absoliwt a thlodi cymharol. Archwilio beth y mae byw mewn tlodi cymharol yn y DU yn ei olygu. Adnabod ffyrdd y mae tlodi yn effeithio ar fywydau pobl ifanc yn y DU. 	<p>Deilliannau dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd y dysgwyr yn nodi effeithiau posibl tlodi ar bobl ifanc yn y DU. Bydd y dysgwyr yn meddwl yn feirniadol am ganlyniadau tlodi yn y DU. 	
<p>Cwestiynau allweddol</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn eich barn chi, beth y mae'n ei olygu i fod yn dlawd yn y DU? A ydych yn credu bod tlodi yn y DU yr un peth â thlodi yn y gwledydd Bywydau Ifanc, neu'n wahanol iddo? Os felly, sut? Beth yw canlyniadau byw mewn tlodi yn y DU? 	<p>Adnoddau</p> <ul style="list-style-type: none"> <i>Sioe Sleidiau Daearyddiaeth B (sleidiau 34–41)</i> <i>Nodiadau cefndir ar dlodi yn y DU</i> Tafenni gweithgaredd: <ul style="list-style-type: none"> <i>Meddwl am dlodi</i> <i>Beth y mae'n ei olygu i fyw mewn tlodi yn y DU?</i> Fideo: <ul style="list-style-type: none"> <i>Seen and Heard</i> 	
<p>Cysylltiadau â'r cwricwlwm</p>		
<p>Lloegr <i>Dylai disgyblion gael eu haddysgu i:</i> Daearyddiaeth CA3 Daearyddiaeth ddynol a ffisegol</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall prosesau allweddol ym maes daearyddiaeth ddynol sy'n ymwneud â phoblogaeth a threfoli; datblygu rhyngwladol; gweithgaredd economaidd yn y sectorau cynradd, eilaidd, trydyddol a phedryddol; a'r defnydd o adnoddau naturiol. 	<p>Cymru Daearyddiaeth CA3 Dealltwriaeth o leoedd, amgylcheddau a phrosesau</p> <ul style="list-style-type: none"> Egluro achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol, a sut y mae'r prosesau'n cydberthyn. <p>Amrediad</p> <ul style="list-style-type: none"> Astudio'r byd cyfoethog a'r byd tlawd: datblygiad economaidd mewn lleoliadau/gwledydd gwahanol. Astudio dinasyddion yfory: materion yng Nghymru a'r byd ehangach o ran byw'n gynaliadwy a'r cyfrifoldebau o fod yn ddinesydd byd-eang. Gofyn – beth yw'r materion daearyddol i bobl sy'n byw yn y lleoliad hwn? 	<p>Yr Alban Astudiaethau cymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallaf egluro pam y gallai grŵp rwyf wedi'i nodi brofi anghydraddoldeb, a gallaf awgrymu ffyrdd y gellid mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn. CYM 3-16a Trwy drafodaeth, rwyf wedi nodi agweddau ar fater cymdeithasol i ymchwilio iddynt, a thrwy gasglu gwybodaeth gallaf asesu effaith y mater hwn ac agweddau'r bobl y mae'r mater yn effeithio arnynt. CYM 4-16b Gallaf ddefnyddio fy ngwybodaeth am faterion cymdeithasol, gwleidyddol neu economaidd i ddehongli tystiolaeth ac i gyflwyno safbwynt gwybodus. CYM 3-15a

Noder:

- *Mae angen mwy nag awr i gwblhau'r holl weithgareddau yn y sesiwn hon. Fel yn achos sesiynau daearyddiaeth eraill, gallech benderfynu hepgor rhai gweithgareddau, yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael, ac ar wybodaeth, dealltwriaeth ac anghenion presennol eich dysgwyr. Bwriad y deunydd yw cefnogi eich addysgu yn hytrach na'i arwain. Efallai y bydd angen mewnbwn addysgu ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o rai o'r cysyniadau hyn.*
- *Mae'r sesiwn hon yn canolbwyntio ar dlodi yn y DU. Gan ei bod yn debygol y bydd tlodi'n effeithio'n uniongyrchol ar rai o'r dysgwyr eu hunain, gall fod angen sensitifrydd gyda rhai o'r gweithgareddau.*

Gweithgaredd 6.1 (20 mun)

Meddwl am dlodi

- Rhannwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri, a rhowch gopi i bob grŵp o'r daflen *Meddwl am dlodi*. Dangoswch sleid 35, a gofynnwch i'r dysgwyr dorri allan yr 14 blwch a gosod yr eitemau mewn tri grŵp:
 - Hanfodol ar gyfer bywyd
 - Angenrheidiol ar gyfer safon byw dderbyniol yn y DU
 - Pethau moethus
- Dewiswch ddysgwyr i rannu eu dewisiadau, ac anogwch nhw i roi rhesymau dros y dewisiadau hyn. Gellid gwneud hyn fel gweithgaredd i'r dosbarth cyfan, neu gallai dau grŵp ddod ynghyd i rannu eu syniadau.
- Defnyddiwch sleid 36 i egluro'r gwahaniaeth rhwng y termau 'tlodi absoliwt' neu 'tlodi eithafol' a 'tlodi cymharol'.
- Dywedwch wrth y dysgwyr am edrych ar yr eitemau y maent wedi'u dewis fel rhai angenrheidiol ar gyfer safon byw dderbyniol yn y DU. Gofynnwch a ydynt yn meddwl y byddai'r un eitemau yn cael eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer safon byw dderbyniol yn y pedair gwlad Bywydau Ifanc. *Pam/Pam ddim?*
- Dangoswch sleid 37, a rhannwch y ffaith bod un o bob pump o bobl yn y DU yn byw o dan y llinell tlodi cymharol. Mae hyn yn golygu nad oes gan 13 miliwn o bobl yn y DU ddigon i fyw'n dda. Trafodwch ymatebion y dysgwyr i'r ystadegyn hwn:
 - *A yw'r ystadegyn hwn yn eich synnu?*
 - *A ydych chi'n meddwl ei bod yn deg nad oes gan y nifer hwn o bobl yn y DU ddigon o arian i fyw'n dda?*
 - *Yn eich barn chi, pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod pobl yn y DU yn byw'n dda?*

Trowch at y *Nodiadau cefndir i athrawon a'r Nodiadau cefndir ar dlodi yn y DU* i gael rhagor o wybodaeth.

Gweithgaredd 6.2 (20 mun)

Beth y mae'n ei olygu i fyw mewn tlodi yn y DU?

- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o dri, a rhowch gopi A3 i bob grŵp o *Beth y mae'n ei olygu i fyw mewn tlodi yn y DU?* Gofynnwch i'ch dysgwyr feddwl am sut y gallai byw mewn tlodi yn y DU effeithio ar fywyd person ifanc, er enghraifft byw mewn tŷ oer neu beidio â chael digon i'w fwyta. Dylent ysgrifennu eu syniadau y tu mewn i'r amlinelliad o'r person.
- Caniatewch amser i'r dysgwyr rannu a thrafod eu syniadau fel dosbarth cyfan.
- Eglurwch fod y dysgwyr yn mynd i wyllo fideo sy'n archwilio sut y mae tlodi yn effeithio ar bobl ifanc yn y DU. Cafodd y fideo ei wneud gan bobl ifanc yn Academi Sant Kentigern yn West Lothian, mewn partneriaeth ag UNICEF, a hynny fel rhan o'i gwaith i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant yng nghymuned yr ysgol.
- Dangoswch y fideo *Seen and Heard** o 0 munud i 4 munud 25 eiliad, ac o 5 munud 27 eiliad i 6 munud 5 eiliad, neu'r fersiwn lawn os byddai'n well gennych.
- Mae rhestr ddefnyddiol o rai canlyniadau posibl i dlodi, a gasglwyd gan Academi Sant Kentigern, wedi'i darparu ar sleid 38 ac yn y *Nodiadau cefndir ar dlodi yn y DU*.
- Gofynnwch i'r dysgwyr drafod yn eu grwpiau yr hyn y maent wedi'i weld:
 - *A yw safbwyntiau'r bobl ifanc hyn am dlodi yn debyg neu'n wahanol i syniadau eich grŵp?*
 - *A gawsoch eich synnu gan unrhyw beth yn y fideo? Os felly, beth?*
 - *A yw eich syniadau am dlodi yn y DU wedi newid ar ôl gwyllo'r fideo? Os felly, ym mha ffyrdd?*
- Caniatewch amser i'r dysgwyr ychwanegu at eu copi o *Beth y mae'n ei olygu i fod yn dlawd yn y DU?*

* Gyda diolch i Academi Sant Kentigern a Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau Unicef UK www.unicef.org.uk/rrsa a www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/resources/rrsa-teaching-resources/seen-and-heard/


Gweithgaredd 6.3 (25–45 munud)

Canlyniadau tlodi

- Eglurwch fod y dysgwyr yn mynd i ddefnyddio olwyn ganlyniadau i'w helpu i feddwl yn feirniadol am effeithiau byw mewn tlodi cymharol yn y DU.
- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o dri, a rhowch ddalen fawr o bapur plaen i bob grŵp. Gofynnwch i bob grŵp ysgrifennu "Tlodi yn y DU" mewn cylch yng nghanol y papur.
- Gofynnwch i bob grŵp ddefnyddio ei syniadau o *Weithgaredd 6.2* i feddwl am unrhyw ganlyniadau uniongyrchol i dlodi yn y DU, er enghraifft methu gwresogi eich tŷ yn iawn, methu prynu digon o fwyd i'w fwyta, methu fforddio teithio ar fws, dim mynediad i'r Rhyngwryd a methu fforddio ffôn symudol. Dylent ysgrifennu pob un o'r canlyniadau uniongyrchol hyn y tu mewn i gylch ar wahân, a thynnu llinell rhyngddo a'r prif gylch i'w cysylltu. Anogwch y dysgwyr i feddwl am gynifer o ganlyniadau uniongyrchol â phosibl ac i'w gosod mewn cylch o amgylch y prif gylch.

- Eglurwch y dylai'r dysgwyr 'nawr ystyried canlyniadau'r canlyniadau hyn. Fel o'r blaen, dylent ysgrifennu'r canlyniadau hyn y tu mewn i gylchoedd, sydd wedi'u cysylltu â'r canlyniadau uniongyrchol – ac yn y blaen.
- Mae enghraifft o olwyn ganlyniadau sydd wedi'i chwblhau'n rhannol i'w gweld isod ac ar sleid 39.

Olwyn ganlyniadau



- Caniatewch amser i bob grŵp gyflwyno ei olwyn ganlyniadau i weddill y dosbarth. Trafodwch

ragdybiaethau'r dysgwyr o ran eu holwyn ganlyniadau ac a oes cyfiawnhad drostynt. *Sut y gallai'r dysgwyr gael gwybod rhagor am y ffeithiau?*

- Os oes amser, gofynnwch i'r dysgwyr drosi pob un o freichiau'r olwyn ganlyniadau yn destun. Mae enghraifft i'w chael isod ac ar sleid 40:

"Mae byw mewn tlodi yn y DU yn golygu efallai na fyddwch yn gallu prynu digon o fwyd i'w fwyta, ac y byddech felly'n mynd heb fwyd ar adegau. Mae hyn yn golygu efallai na fyddwch yn gallu canolbwyntio cystal mewn gwersi ac, o ganlyniad, efallai y byddwch yn gweld y dysgu'n anoddach. Gallai mynd heb fwyd hefyd effeithio ar eich iechyd gan na fyddai gennych ddeiet cytbwys a maethlon, ac efallai na fydddech yn cael digon o fitaminau a mwynau."

- Mae geiriau defnyddiol wedi cael eu darparu ar sleid 41 i gynorthwyo dysgwyr gyda'u gwaith ysgrifennu. Efallai yr hoffech gyfeirio at *Nodiadau cefndir i athrawon* a *Nodiadau cefndir ar dlodi yn y DU*.

Syniadau pellach

- Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio i sut y mae lefelau tlodi yn amrywio ledled y DU, a thrafod rhesymau posibl am unrhyw anghydraddoldebau. Mae map rhyngweithiol sy'n dangos lefelau tlodi plant mewn awdurdodau lleol ledled y DU ar gael yma: www.endchildpoverty.org.uk/why-end-child-poverty/poverty-in-your-area
- Ymchwiliwch i unrhyw fylchau eraill yn y DU trwy gasglu data rhanbarthol ar gyfer dangosyddion eraill, er enghraifft disgwyliad oes, marwolaethau babanod a mynediad i'r Rhyngwrdd. Gallai'r dysgwyr wedyn greu mapiau o'r DU wedi'u codio â lliw, neu ddefnyddio rhaglenni GIS i ddangos yr amrywiadau yn y dangosyddion gwahanol hyn.
- Gofynnwch i'r dysgwyr greu eu fersiwn eu hunain o'r graff ar sleid 36, gan ddangos y gwahaniaeth rhwng tlodi eithafol (absoliwt) a thlodi cymharol. Gallai'r dysgwyr ychwanegu eitemau o *Meddwl am dlodi* at rannau gwahanol o'r graff er mwyn dangos y gwahaniaethau rhwng byw uwchben ac o dan y llinellau tlodi eithafol a thlodi cymharol. Gallai'r dysgwyr feddwl am eitemau eraill i'w hychwanegu at y graff i ddangos anghydraddoldebau eraill rhwng byw uwchben neu o dan y llinellau tlodi eithafol a thlodi cymharol.
- Defnyddiwch y fideo yng *Ngweithgaredd 6.2* i ysgogi gweithgareddau cadair goch, chwarae rôl a drama, er mwyn archwilio canlyniadau tlodi yn y DU ymhellach.
- Defnyddiwch olwyn ganlyniadau i feddwl yn feirniadol am effeithiau byw mewn tlodi yn un o'r gwledydd Bywydau Ifanc:
 - Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o dri, a gofynnwch iddynt gwblhau olwyn ganlyniadau er mwyn dangos effeithiau byw mewn tlodi yn un o'r gwledydd Bywydau Ifanc (Ethiopia, India, Periw neu Fiet-nam). Anogwch y dysgwyr i feddwl am yr hyn y maent wedi'i ddysgu mewn sesiynau blaenorol. Gallai fod yn ddefnyddiol dosbarthu copiâu o broffiliau'r bobl ifanc dan sylw yn *Sesiwn Daearyddiaeth 3*.
 - Gofynnwch i'r dysgwyr gymharu eu holwyn ganlyniadau â'r un a grëwyd ganddynt ar gyfer byw mewn tlodi yn y DU. *Pa debygrwydd neu wahaniaethau sydd rhyngddynt?*

- Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr gymharu eu holwynion canlyniadau ag olwynion grwpiau eraill:
 - *Pa debygrwydd neu wahaniaethau sydd rhwng y gwledydd Bywydau Ifanc gwahanol?*
 - *Pa debygrwydd neu wahaniaethau a allai fod yn wir am fechgyn a merched sy'n byw mewn tlodi?*
 - *Pa debygrwydd neu wahaniaethau a allai fod yn wir am bobl ifanc sy'n byw mewn tlodi mewn lleoliadau gwledig a threfol?*

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB/Bywydau Ifanc

Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam a Bywydau Ifanc. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.


Meddwl am dlodi

Torrwch allan yr 14 blwch a rhannwch yr eitemau'n dri grŵp:

- *Hanfodol ar gyfer bywyd*
- *Angenrheidiol ar gyfer safon byw dderbyniol yn y DU*
- *Pethau moethus*

Bwyd	Ffôn symudol
Mynd ar wyliau	Dŵr
Addysg	Gwres
Mynediad i ofal iechyd	Cymdeithasu â ffrindiau, er enghraifft mynd i fwyty neu gaffi
Trydan	Teledu
Mynd i'r sinema	Gliniadur neu gyfrifiadur
Car	Lloches

Beth y mae'n ei olygu i fyw mewn tlodi yn y DU?



Nodiadau cefndir ar fyw mewn tlodi yn y DU

Er mai'r DU yw seithfed wlad gyfoethocaf y byd, mae hefyd yn wlad anghyfartal dros ben, ac mae miliynau o deuluoedd ar hyd a lled y DU yn byw mewn tlodi.

Mae Oxfam a Church Action on Poverty wedi cyfrifo y cafodd 20,247,042 o brydau bwyd eu rhoi i bobl mewn tlodi bwyd yn 2013/14 gan y tri phrif ddarparwr cymorth bwyd. Mae hyn yn gynydd o 54 y cant ar 2012/13.

Mae cyfuniad o newidiadau i'r system nawdd cymdeithasol, gan gynnwys system sancsiynau fwy llym, prinder swyddi da, a chostau byw uwch, yn cyfrannu'n sylweddol at dlodi bwyd. Mae mwy a mwy o bobl yn cael eu gorfodi i droi at fanciau bwyd er mwyn rhoi bwyd ar y ford.

- Amcangyfrifir bod dros 2 filiwn o bobl yn y DU yn dioddef o ddiffyg maeth, a bod 3 miliwn o bobl mewn perygl o fod yn yr un sefyllfa.
- Dim ond un bil trydan neu un peiriant golchi wedi torri sydd rhwng 26% o boblogaeth y DU a chaledi.
- Mae 1 o bob 6 o rieni wedi mynd heb fwyd eu hunain er mwyn fforddio i fwydo'u teuluoedd.

Am ragor o wybodaeth ewch i:

policy-practice.oxfam.org.uk/publications/below-the-breadline-the-relentless-rise-of-food-poverty-in-britain-317730

policy-practice.oxfam.org.uk/publications/walking-the-breadline-the-scandal-of-food-poverty-in-21st-century-britain-292978

Lluniodd disgyblion o Academi Sant Kentigern, West Lothian, yn yr Alban (sydd i'w gweld yn y fideo 'Seen and Heard') y rhestr ganlynol o ganlyniadau posibl i dlodi yn y DU, mewn partneriaeth ag UNICEF UK:

- Pobl yn credu ystrydebau am y rheiny sy'n byw mewn tlodi.
- Teimlo'n wahanol i bobl 'normal' eraill.
- Heb ddigon o arian weithiau i brynu bwyd iawn ac iachus.
- Byw mewn tŷ oer.
- Dim dillad newydd na'r pethau eraill sydd gan y rhan fwyaf o bobl ifanc, er enghraifft y ffôn neu'r gêm ddiweddaraf.
- Problemau iechyd oherwydd amodau byw gwael.
- Dim bywyd cymdeithasol am nad ydych yn gallu fforddio pethau fel tocyn bws, tripiâu chwaraeon, tripiâu ysgol, neu gael eich ffrindiau draw.
- Methu gwneud gwaith cartref yn iawn am nad oes gennych gyfrifiadur neu rywle tawel i weithio gartref.
- Teimlo'n ansicr ac yn ofnus am y dyfodol.